**RHINOGAU**

Mae daeareg yr ardal hon yn eithaf unigryw, gyda'i haenau llorweddol yn creu nifer enfawr o glogwyni bach a brigiadau caregog. Ar un adeg byddai'r nodweddion caregog i gyd yn ymwybodol i'r bugeiliaid, ond mae llawer o'r enwau bellach wedi'u colli.

**Clogwyn Pot SH 654309**

Gall yr enw fod yn un sy'n cyfeirio at ffurf y clogwyn yn debyg ei ffurf i beth a enwir yn *pot* 'llestr coginio' o ryw fath. Neu, oes cyfeiriad at air hir anghofiedig, sef *pothan* 'cenau blaidd'. Hefyd, rhaid cofio Clogwyn Spot ger Dolwyddelan; a John E Jones yn ei 'Taith o Lanberis i Gwmdyli' (1914) yn enwi y graig Dinas Mot uwch Nant Peris fel Dinas Spot. Oes unrhyw cysylltiad rhyngddynt?

**Craig Aberserw SH 695265**

Aberserw yw enw fferm i'r Gogledd Ddwyrain, mae Afon Serw drosodd ar yr ochr arall y bryn (7027). Yma, mae'r term *craig* 'tir creigiog' yn dynodi tir agored mynyddig yn hytrach na chlogwyn, sef porfa fynyddig y fferm.

**Craig Fawr SH 679355**

Nid un clogwyn mawr sydd mewn gwirionedd, yn hytrach, fe geir nifer o greigiau bach sy'n ffurfio llechwedd eang.

**Craig Wion SH 662321**

Mae yna bosibilrwydd bod enw personol Gwion sydd sydd yma; roedd yna annedd fechan o'r enw Hafotty Craig Wion (SH 673324) ar y mapiau cynnar. Fodd bynnag, wrth edrych ar y ffurfiau cynnar, a'i enw syn deillio o *hwi* 'annog, gyrru' y sŵn a ddefnyddir wrth yrru defaid neu wartheg neu annog cŵn i hela. Ffridd Craigwyon 1641 anhysbys, Graig-weon 1831 AO, Craig Wion 1838 AO.

**Craig y Cae SH 708235**

Yr enw presennol ar y clogwyn yw *craig* 'clogwyn' + *cae* 'lloc, encilfan'; fodd bynnag, yr enw ar fap 1830 yr AO yw Craig Cau, ymddengys y byddai disgrifydd *cau* 'caeedig' cyd-fynd yn fwy â ffurf y clogwyn. *'Craig Cai, a mountain near Llanelltyd.'* The Cambrian Register. (1796)

**Craig y Grut SH 636213**

Mae gan sawl ardal yn y mynyddoedd yn ymddangos greigiau sy'n debyg iawn i grut melinfaen; tybed a gai'r graig leol hon ei defnyddio mewn melinau?

**Craig y Merched SH 693231**

*Merched* yw lluosog y gair *merch* 'geneth, dynes ifanc', Cernyweg Canol *myrgh, mergh*, Llydaweg Canol *merch*,. Mae sawl chwedl yn ymwneud a merched yn y tirlyn, enwedig gyda llynnoedd. Neu, ai llygriad enw'r planhigyn *merch, mers* 'helogan, seleri gwyllt' sydd?

**Llawlech SH 633221**

Dyma enw sydd ar y graig, ond enw ar y gefnen/mynydd oedd ar y mapiau cynnar, gweler Llawlech yn y darn ar fynyddoedd. 'Llywllach, the guide of drifts, a mountain.' 1796 Cambrian Register.

Mynyddoedd.co.uk